**GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHREDU MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG**

**011 – Rheoliadau Anifeiliaid, Bwyd, Iechyd Planhigion, Deunyddiau Lluosogi Planhigion a Hadau (Diwygiadau Amrywiol etc.) 2022**

*Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 18 Gorffennaf 2022*

| | |
|---|---|
| **Sifftio** | |
| Yn destun sifftio yn Senedd y DU? | Ydy |
| Gweithdrefn: | Negyddol arfaethedig |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | 19 Gorffennaf 2022 |
| Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | 13 Medi 2022 |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (SICM) o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | Dim angen |
| **Gweithdrefn graffu** | |
| Canlyniad y broses sifftio | Anhysbys |
| Gweithdrefn | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan y Cyd-bwyllgor ar Offerynnau Statudol | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Anhysbys |

**Cefndir**

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU o dan adran 8 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraff 21 o Atodlen 7 iddi. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y Rheoliadau hyn mewn maes datganoledig.

**Crynodeb**

Mae'r Rheoliadau hyn yn cywiro nifer o ddiffygion yng nghyfraith yr UE a ddargedwir sydd wedi'i datganoli ymhlith pethau eraill, er mwyn gwneud i'r gyfraith honno weithio mewn cyd-destun domestig.

Mae llawer o'r diffygion sy'n cael eu cywiro yn gymharol fach. Er enghraifft:

- Newidir cyfeiriadau at Aelod-wladwriaethau i gyfeiriadau at awdurdod cymwys. Er enghraifft, yn hytrach na rhoi dewis i Aelod-wladwriaethau ynghylch pryd i gymryd samplau llaeth, mae'r Rheoliadau hyn yn rhoi dewis i awdurdodau cymwys ynghylch pryd i gymryd samplau llaeth. Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod cymwys yng Nghymru.

- Newidir cyfeiriadau at arbenigwyr o'r gymuned i arbenigwyr a benodir gan yr awdurdod cymwys.

- Newidir cyfeiriadau at y Gymuned i gyfeiriadau at Brydain Fawr.

Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod newidiadau eraill yn fwy arwyddocaol, yn benodol newidiadau i ddau Benderfyniad gan y Gymuned Ewropeaidd sy'n ymwneud â mewnforio cynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion pysgodfeydd o UDA.

Ar hyn o bryd, rhaid i fewnforion o'r fath ddod gyda thystysgrif iechyd yn unol â ffurflen enghreifftiol a nodir mewn deddfwriaeth. Fodd bynnag, o ganlyniad i'r Rheoliadau hyn, bydd yn rhaid i fewnforion o'r fath, yn hytrach, ddod gyda thystysgrif iechyd **ar ffurf a gyhoeddir gan yr awdurdod priodol o bryd i'w gilydd.**

Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod priodol yng Nghymru. Mae hyn yn rhoi disgresiwn i Weinidogion Cymru (ac awdurdodau priodol eraill ym Mhrydain Fawr) ynghylch ffurf tystysgrifau iechyd y mae'n rhaid iddynt ddod gyda mewnforion cynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion pysgodfeydd o UDA, yn hytrach na'i gwneud yn ofynnol i fewnforion o'r fath ddod gyda thystysgrif iechyd yn unol â ffurflen enghreifftiol a nodir mewn deddfwriaeth.

**Datganiad gan Lywodraeth Cymru**

Mae Cynghorwyr Cyfreithiol yn gwneud y sylwadau a ganlyn mewn perthynas â datganiad ysgrifenedig Llywodraeth Cymru ar 15 Gorffennaf 2022:

- Nid yw'r datganiad ysgrifenedig yn crynhoi diben y Rheoliadau, fel y bo'n ofynnol gan Reol Sefydlog 30C.3(i). Nid oes disgrifiad o'r hyn y mae'r Rheoliadau yn ei wneud.

- Nid yw'r datganiad ysgrifenedig yn egluro pam y mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y Rheoliadau hyn mewn maes datganoledig, fel y bo'n ofynnol gan Reol Sefydlog 30C.3(iii).

- Mae'r datganiad ysgrifenedig yn cyfeirio at ddiwygio Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, er mwyn dileu'r gofyniad am

gydsyniad Llywodraeth y DU "*os yw Gweinidogion Cymru yn* ***addasu neu'n dileu*** *swyddogaeth Ysgrifennydd Gwladol*". Fodd bynnag, diwygiwyd Atodlen 7B dim ond o ran **dileu** swyddogaeth Ysgrifennydd Gwladol; nid oedd y diwygiad i Atodlen 7B yn cynnwys **addasu** swyddogaethau o'r fath.

- Mae'n ymddangos bod y dyfyniad hwnnw o'r datganiad ysgrifenedig hefyd yn cyfuno Gweinidogion Cymru a'r Senedd – mae Atodlen 7B yn berthnasol i Ddeddfau gan y Senedd yn unig, ac nid i swyddogaethau gweithredol Gweinidogion Cymru.

**Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)**

O ran defnyddio'r pwerau hyn mewn meysydd datganoledig, mae'r Cytundeb Rhynglywodraethol yn dweud na fydd y pwerau'n cael eu defnyddio i ddeddfu polisi newydd mewn meysydd datganoledig. Nid yw'n glir i ba raddau y mae'r Rheoliadau hyn yn deddfu polisi newydd. Gallai rhai ddadlau bod newid ffurf tystysgrif iechyd yn gyfystyr â pholisi newydd. Gallai eraill ddweud mai'r polisi yn syml yw i fewnforion ddod gyda thystysgrifau iechyd, ac nad yw'r polisi hwnnw'n newid. Hynny yw, mae'n anodd diffinio beth yw polisi newydd.

Mae'r Cytundeb Rhynglywodraethol hefyd yn dweud mai prif ddiben defnyddio'r pwerau hyn fydd 'effeithlonrwydd gweinyddol'. Fodd bynnag, nid yw datganiad ysgrifenedig Llywodraeth Cymru yn dweud dim am yr effeithlonrwydd gweinyddol y mae'r Rheoliadau hyn yn ei gyflawni. Heb ragor o wybodaeth ynglŷn â sut y bydd y tystysgrifau iechyd newydd yn gweithio, mae'n amhosibl gwybod a fydd y Rheoliadau yn cyflawni effeithlonrwydd gweinyddol.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**25 Gorffennaf 2022**